Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn yr ymweliad monitro â Chonsortiwm y Gwasanaeth Cyflawni Addysg

**Porth Tredomen**
**Parc Tredomen**
**Ystrad Mynach**
**Hengoed**
**CF82 7EH**

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyflwyniad

Ym Mai 2016, arolygodd Estyn y gwasanaethau gwella ysgolion a ddarperir gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg. Ym Medi 2017, ymwelodd Estyn â'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i adolygu'r cynnydd a wnaed gan y consortiwm mewn perthynas â'r argymhellion a nodwyd yn yr arolygiad.

Wrth arfarnu cynnydd ar gyfer pob argymhelliad, fe wnaethom ystyried y canlynol:

- A yw'r consortiwm wedi deall y rhesymau y tu ôl i'r argymhelliad?
- A yw'r consortiwm wedi cymryd camau rhesymol i fynd i'r afael â'r argymhelliad yn llwyddiannus, gan ystyried ei fan cychwyn, yr amser rhwng arolygiad ac ymweliad dilynol, yn ogystal â chymhlethdod y materion i fynd i'r afael â nhw?
- A yw'r consortiwm wedi cael cymorth priodol i fynd i'r afael â'r argymhellion gan ei awdurdodau lleol partner?
- A yw'r consortiwm wedi sicrhau bod newidiadau sy'n deillio o'i gynnydd o ran mynd i'r afael â phob argymhelliad wedi cael eu hymgorffori ddigon yn ei arferion gweithio i sicrhau gwelliant cynaledig?

Wrth lunio barn am y cynnydd yn erbyn yr argymhellion, bu'r tîm monitro yn ystyried y tueddiadau mewn perfformiad dros y pum mlynedd ddiwethaf fel cyd-destun ar gyfer arfarnu effaith ei waith mewn ysgolion. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi na ellir priodoli deilliannau yn gyfan gwbl i waith y consortiwm rhanbarthol am fod gan bartneriaid eraill yn y system rôl bwysig hefyd.

Bu'r tîm monitro yn ystyried ystod o dystiolaeth, gan gynnwys cynllunio busnes y consortiwm, arfarniadau, adroddiadau ymgynghorwyr her, gweithdrefnau gosod targedau, asesiadau risg a safbwyntiau penaethiaid.

Nid yw Estyn yn bwriadu cynnal unrhyw ymweliadau dilynol pellach â'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg. Bydd unrhyw feysydd i'w gwella sy'n weddill yn cael eu monitro'n anffurfiol gan arolygydd cyswllt rhanbarthol Estyn ac arolygwyr cyswllt perthnasol yr awdurdod lleol, a'u hystyried yn ystod arolygiadau o wasanaethau addysg llywodraeth leol yn y dyfodol.

## Cynnydd ers yr arolygiad

### Argymhelliad 1: Ystyried defnyddio ystod ehangach o ddangosyddion perfformiad ar lefel ysgol a rhanbarthol i sicrhau bod cynnydd pob grŵp o ddysgwyr yn cael ei herio a'i gefnogi

Cynnydd boddhaol o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn darparu dadansoddiadau defnyddiol o ystod gynhwysfawr o ddata perfformiad ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol.

Mae grwpiau llywodraethu, gan gynnwys y Grŵp Gweithredol ar y Cyd (JEG) a Bwrdd Cwmni'r Gwasanaeth yn derbyn crynodebau defnyddiol o berfformiad, gan gynnwys perfformiad dysgwyr. Mae swyddogion yn defnyddio'r data hwn yn dda at ystod o ddibenion. Er enghraifft, maent yn ei ddefnyddio ochr yn ochr â gwybodaeth gyd-destunol am ysgolion i gynnal cofrestr o ysgolion sy'n achosi pryder. Mae hyn yn eu galluogi i ddyrannu her a chymorth yn gymesur. Mae ystod y dangosyddion yn y cynllun busnes yn cynnwys ystod ehangach o dargedau hefyd erbyn hyn, er enghraifft y sgôr pwyntiau wedi'i chapio ac A*-A ar gyfer pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 4.

Mae uwch reolwyr yn darparu arweiniad clir a defnyddiol i ysgolion ac ymgynghorwyr her sy'n cefnogi'r broses gosod targedau yn dda. Rhoddir cyfarwyddyd cryf i ysgolion ystyried cyrhaeddiad blaenorol, data cymharol a gwybodaeth am berfformiad a ddarperir gan Lywodraeth Cymru er mwyn gosod targedau gyda her briodol. Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn disgwyl i ysgolion osod ystod o dargedau ar gyfer perfformiad disgyblion, yn seiliedig ar ddeddfwriaeth ddiweddaraf Llywodraeth Cymru. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion uwchradd osod targedau ar gyfer deilliannau ar A*-A ar gyfer pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 4. Mae'n ofynnol i ysgolion osod targedau ar gyfer disgyblion unigol, y mae'r Gwasanaeth yn eu cydgrynhoi i lefel ysgol ar gyfer pob dangosydd. Fodd bynnag, nid yw'r consortiwm yn annog ysgolion yn ddigon da i ystyried y targedau hyn sydd wedi'u cydgasglu ar draws ystod ddigonol o grwpiau o ddysgwyr, fel bechgyn a merched, neu'r rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol. O ganlyniad, mae gan y Gwasanaeth ac ysgolion amgyffrediad gwannach o fan cychwyn y grwpiau hyn, ac o ganlyniad, y cynnydd a wnânt.

Mae prif ymgynghorwyr her yn sicrhau bod eu timau'n cynorthwyo ysgolion i osod targedau addas ar gyfer y dangosyddion angenrheidiol. Maent yn ymgymryd â'u rôl arfarnu yn effeithiol ar gyfer yr agwedd hon ar eu gwaith ac yn cysylltu'n dda ag awdurdodau lleol wrth gytuno ar dargedau. Gyda'i gilydd, mae'r Gwasanaeth ac awdurdodau lleol yn cymryd camau cadarn a phendant pan fydd ysgolion yn amharod i osod targedau sy'n briodol ddyheadol ar gyfer dysgwyr.

Mae'r consortiwm wedi cryfhau ei her i ysgolion ynglŷn â pha mor dda y mae ysgolion yn arfarnu eu cynnydd tuag at dargedau. Mae ysgolion ac ymgynghorwyr her yn deall y system yn dda. Mae'n ofynnol i bob ysgol roi cyfrif am gynnydd disgyblion unigol yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn academaidd. Mewn ysgolion cynradd, mae ymgynghorwyr her yn canolbwyntio'n graff ar gynnydd disgyblion sy'n agored i niwed. Nid yw ymgynghorwyr her yn canolbwyntio'n gyson ar y disgyblion

hyn ar draws pob ysgol uwchradd.

Mae ansawdd yr her ar draws ystod lawn y dangosyddion yn y sector uwchradd yn amrywiol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae ymgynghorwyr her ac arweinwyr ysgolion uwchradd yn craffu ar gynnydd tuag at yr holl dargedau'n fanwl ac yn gofyn i benaethiaid gyfiawnhau cynnydd pob disgybl a grŵp tuag at eu targedau. Mae hyn yn cynnwys targedau gradd A*- A yng nghyfnod allweddol 4 a'r sgôr pwyntiau wedi'i chapio. Gyda'i gilydd, maent yn craffu ar berfformiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim hefyd i sicrhau eu bod ar y trywydd iawn i fodloni'r targedau a osodwyd ar eu cyfer. Mae ymgynghorwyr y Gwasanaeth Cyflawni Addysg o'r timau pynciau craidd yn gweithio ochr yn ochr ag ymgynghorwyr her i ddilysu deilliannau mewn llyfrau a gwersi. Mae hyn yn galluogi'r Gwasanaeth a'u hawdurdodau partner i gael barn glir ar gynnydd yn yr ysgolion hyn.

Fodd bynnag, er bod systemau gosod targedau ac arfarnu wedi'u cryfhau, mewn mwyafrif o ysgolion uwchradd, mae ymgynghorwyr her yn canolbwyntio ar ystod rhy gyfyng o ddangosyddion o hyd. Yn benodol, ni roddir digon o bwyslais yn yr ysgolion hyn ar gyrhaeddiad a chynnydd disgyblion sy'n fwy abl, a grwpiau sy'n agored i niwed. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd i ysgolion neu'r consortiwm arfarnu pa mor effeithiol yw eu strategaethau ar gyfer y grwpiau hyn, a ph'un a yw'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da.

**Argymhelliad 2: Gwella cysondeb yn ansawdd arfarnu gweithgareddau gwella ysgolion ar draws y gwasanaeth**

Cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd yn 2016, mae uwch swyddogion wedi sicrhau bod pob tîm yn y sefydliad yn gweithredu dulliau cyson o arfarnu eu gwaith. Mae pob un o'r rhanddeiliaid yn deall y prosesau arfarnu yn dda. Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn defnyddio dull FADE (ffocws, gweithgarwch, gwneud, arfarnu) yn fwy cyson i arfarnu gwaith y gwasanaeth a'i gymhwyso i'r holl weithgareddau gwella ysgolion.

Ceir amserlen fanwl o weithgarwch sy'n amlinellu pryd y dylid arfarnu pob agwedd ar waith y gwasanaeth. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'n glir y swyddogion sy'n gyfrifol am arfarnu pob maes gwasanaeth hefyd.

Erbyn hyn, mae uwch reolwyr yn arfarnu gwaith ymgynghorwyr her yn effeithiol ac yn eu dwyn i gyfrif yn dda am ansawdd eu gwaith yn y rhan fwyaf o achosion. Mae prosesau sicrhau ansawdd yn drylwyr ac yn helpu i sicrhau bod uwch reolwyr yn mynd i'r afael â thanberfformio eu hymgynghorwyr eu hunain yn gadarn. Yn ychwanegol, mae uwch swyddogion yn herio a chynorthwyo ymgynghorwyr yn dda i wella eu gwaith trwy'r system rheoli perfformiad. O ganlyniad, mae awdurdodau lleol a phenaethiaid yn fwy hyderus fod ymgynghorwyr her yn darparu lefelau da o her a chymorth i'w hysgolion.

Yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, mae'r tîm Broceriaeth, Ymyrraeth a Chymorth (BIS) wedi mabwysiadu dulliau tebyg o arfarnu gwaith eu hymgynghorwyr. Yn sgil arfarnu effaith gwaith y tîm BIS, mae'r Gwasanaeth yn defnyddio ymagwedd

wahanol at y ffordd y maent yn cefnogi ysgolion a nodwyd. Erbyn hyn, mae rhaglenni cymorth yn bwrpasol i bob ysgol, fe'u cyflwynir trwy ddull gweithio o un ysgol i'r llall, ac fe gânt eu monitro gan ymgynghorwyr arweiniol meysydd gwasanaeth. Mae'r ffordd hon o weithio wedi arwain at arferion cydweithio agosach rhwng yr ymgynghorwyr her a'r ymgynghorwyr pwnc. O ganlyniad, mae rhaglenni cymorth ar gyfer ysgolion yn gweddu'n well i'w hanghenion, gan gysylltu'n uniongyrchol â'r meysydd y mae angen eu gwella a nodwyd yn ystod y broses gategoreiddio.

Mae llawer o arfarniadau o waith gwella ysgolion bellach yn canolbwyntio'n fwy manwl gywir ar y camau gweithredu penodol y mae angen i arweinwyr ysgol eu cymryd i ysgogi gwelliannau yn eu hysgol. Mae'r rhain yn cynnwys canolbwyntio ar berfformiad disgyblion, ac ansawdd yr addysgu a'r arweinyddiaeth. Yn ychwanegol, mae arfarniadau'r holl ymgynghorwyr bellach yn ystyried ystod ehangach o dystiolaeth uniongyrchol i helpu'r Gwasanaeth i arfarnu darpariaeth ac arweinyddiaeth a nodi'r agweddau penodol ar eu gwaith y mae angen eu gwella. Mae ymgynghorwyr yn casglu'r dystiolaeth trwy ystod o weithgareddau addas fel arsylwadau ystafell ddosbarth, craffu ar waith disgyblion ac ystyried safbwyntiau disgyblion.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae arfarniadau FADE bellach yn cysylltu'n gliriach â dogfennau arfarnol eraill a wnaed am gynnydd ysgolion. Er enghraifft, fe'u defnyddir yn fwy effeithiol i arfarnu agweddau penodol ar y cynllun cymorth cyffredinol i ysgolion. Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, nid yw lleiafrif o arfarniadau, yn enwedig o berfformiad ysgolion uwchradd, yn canolbwyntio'n ddigon penodol ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion, nac ansawdd yr addysgu a'r arweinyddiaeth. O ganlyniad, nid yw'r dogfennau hyn yn ddefnyddiol o ran nodi i'r ysgol neu'r Gwasanaeth beth yn union y mae angen ei wella. Mae rheolwyr y Gwasanaeth wedi nodi'r diffygion hyn trwy brosesau sicrhau ansawdd y Gwasanaeth ac maent wedi cryfhau eu systemau i ymateb i hyn.

Mae uwch reolwyr yn gwneud arfarniadau gonest a chywir o'r cryfderau a'r diffygion yn y gweithgareddau gwella ysgol y maent yn eu darparu ar gyfer ysgolion. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o sut i gysylltu'r canfyddiadau o weithgareddau hunanarfarnu â chynllunio gwelliant.

**Argymhelliad 3: Nodi a rheoli risgiau'n fwy effeithiol**

Cynnydd da iawn o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad, mae'r consortiwm wedi gwneud cynnydd da iawn o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.

Mae'r Gwasanaeth wedi llunio dogfen polisi ac arweiniad newydd ar reoli risg ac mae wedi rhannu'r ddogfen gyda phob un o'r staff. Mae'r dogfennau hyn yn rhoi cyfarwyddyd defnyddiol i reolwyr y Gwasanaeth o ran nodi, categoreiddio a lliniaru risgiau sydd wedyn yn cael eu cynnwys ar y gofrestr dadansoddi risg. Mae'r gofrestr yn cynnwys crynodebau defnyddiol o risgiau hefyd, ac fe gaiff ei diweddaru'n rheolaidd, yn unol â lefel y risg. Er enghraifft, mae uwch reolwyr yn adolygu risgiau

uchel iawn bob deufis.

Yn ogystal ag uwch reolwyr, mae’r uwch dîm arweinyddiaeth i gyd wedi derbyn hyfforddiant mewn sut i nodi a rheoli risgiau. Mae uwch reolwyr wedi defnyddio adolygiadau datblygu perfformiad i sicrhau bod uwch staff ar draws y Gwasanaeth yn cael eu cynnwys yn briodol yn y broses rheoli risg.

Mae proffil uwch o lawer i reoli risg yn y consortiwm nag adeg yr arolygiad. Mae swyddogion y Gwasanaeth a staff yn trafod risgiau a mesurau lliniaru mewn cyfarfodydd ar bob lefel. Mae’r pwyllgor archwilio a sicrhau risg, bwrdd y cwmni a’r Grŵp Gweithredol ar y Cyd i gyd yn monitro a herio’r risgiau hyn yn rheolaidd. Er enghraifft, mae’r Gwasanaeth wedi nodi’n gywir y risg o fethu denu a defnyddio staff o safon uchel i weithio gyda’r ysgolion yn y rhanbarth. Mae’r Gwasanaeth wedi datblygu strategaethau priodol ar gyfer cynllunio’r gweithlu a rheoli dilyniant i liniaru yn erbyn y risgiau hyn.

Mae prif swyddogion yr awdurdodau lleol partner yn meddu ar ddealltwriaeth dda o’r risgiau a nodwyd gan y Gwasanaeth, ac maent yn monitro’r risgiau hyn yn eu cyfarfodydd ar draws y gyfarwyddiaeth. Ceir alinio gwell rhwng risgiau awdurdodau lleol unigol a risgiau’r Gwasanaeth.

**Argymhellion**

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn, a gwella arno, dylai’r consortiwm barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi’i wneud, a pharhau i fynd i’r afael â’r argymhellion arolygu hynny ble mae angen gwneud rhagor o gynnydd.